# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI**

Dyddiad ac Amser

**6.00 y.h., DYDD MAWRTH, 16EG HYDREF, 2018**

Lleoliad

**Ystafell Bwyllgor, Swyddfa'r Cyngor, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5AA**

Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

**BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 10/10/18)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Dylan Bullard | Aelod Lleol |
| Cynghorydd Peter Read | Aelod Lleol Abererch |
| Cynghorydd Hefin Underwood | Aelod Lleol |

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Ifor Hughes | Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a'r Cylch |
| Stephen Tudor | Cynrychioli Clwb Hwylio Pwllheli a Plas Heli |
| David Dewsbury | Cynrychioli Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli |
| Wil Partington | Cynrychioli Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli |
| Andrew Picken | Cynrychioli Siambr Fasnach Pwllheli |
| Cynghorydd Mici Plwm | Cynrychioli Cyngor Tref Pwllheli |
| Alwyn Roberts | Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Pwllheli |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Ioan Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |
| David Williams | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| Cynghorydd Rob Triggs | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw |
| Dr John Jones-Morris | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog |

# RHAGLEN

## 1. CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd am 2018/19.

## 2. IS-GADEIRYDD

I ethol Is-Gadeirydd am 2018/19.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

## 6. COFNODION 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2018, fel rhai cywir.

## 7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR 9 - 32

Cyflwyno adroddiad Rheolwr Harbwr Pwllheli.

## 8. DIOGELWCH HARBWR

I ystyried unrhyw fater diogelwch harbwr.

## 9. RHAGLEN CARTHU'R HARBWR 33

Cyflwyno diweddariad gan y Peiriannydd.

## 10. CYNLLUNIAU ARFAETHEDIG AR GYFER GORSAF BAD ACHUB NEWYDD

I dderbyn diweddariad gan gynrychiolydd o Sefydliad y Bad Achub.

## 11. ADOLYGIAD HAFAN A HARBWR PWLLHELI

Derbyn cyflwyniad gan yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned.

## 12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 19 Mawrth 2019.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI 20/3/18

**Presennol:** Y Cynghorydd Hefin Underwood (Cadeirydd)

David Dewsbury (Cymdeithas Cychod Harbwr Pwllheli), Ifor Hughes (Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a'r Cylch), W. A. Partington (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol), Alwyn Roberts (Sefydliad y Bâd Achub) a Stephen Tudor (Clwb Hwylio Pwllheli a Phlas Heli).

**Hefyd yn bresennol:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Llŷr B. Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Wil Williams (Rheolwr Harbwr Pwllheli) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Peter Read (Cyngor Gwynedd), Cynghorydd Mici Plwm (Cyngor Tref Pwllheli) a'r Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Datblygu'r Economi).

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Hydref, 2017, fel rhai cywir.

**3. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR**

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod staff yr harbwr wedi bod yn brysur o ran gwaith dros y Gaeaf gyda'r tywydd garw yn ffactor.

Diolchodd Cynrychiolydd Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a'r Cylch i Reolwr Harbwr Pwllheli a'r staff am ail osod rhaffau a bwi ar ei gwch gan sicrhau ei diogelwch.

Nododd Cynrychiolydd Cymdeithas Cychod Harbwr Pwllheli ei werthfawrogiad o waith staff yr harbwr ar ran y Gymdeithas.

Tywysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr aelodau drwy'r adroddiad, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Bod adroddiad archwilwyr Asiantaeth Gwylwyr y Glannau ar eu harolygiad trylwyr o drefniadau a systemau diogelwch presennol harbyrau bwrdeistrefol Gwynedd er sicrhau cydymffurfiaeth a'r Cod Diogelwch Porthladdoedd wedi ei gynnwys yn y rhaglen. Roedd yr archwilwyr yn nodi bod y Cyngor yn cyd-fynd gyda'r gofynion yn gyffredinol ond bod angen addasu rhai elfennau yn gysylltiedig â chofnodi dyletswyddau a nodi pwy oedd y Daliwr Dyletswydd a'r Person Dynodedig.
- Bod yr archwilwyr wedi nodi sylw bod diffyg lled yn sianel fordwyo yr harbwr er nad oedd yn dechnegol yn rhan o'r archwiliad.
- Comisiynwyd cwmni allanol i gynnal arolwg hydograffig llawn o'r sianel fordwyo, ceg yr harbwr mewnol a basn y marina gan gynnwys basn angorfeydd pontŵn Plas Heli. Roedd copi electroneg o'r adroddiad ynghyd â chopïau papur ar gael i'r aelodau yn swyddfa'r Hafan.
- Byddai gwaith lefelu gwely'r sianel yn cael ei gwblhau yn mis Mai a gwaith carthu'r basn yn cael ei gwblhau yn ystod misoedd y Gaeaf 2018/19.
- Comisiynwyd Ymgynghoriaeth Gwynedd i wneud gwaith dylunio manwl Grwyn y Crud. Gobeithir byddai gwaith adfer Grwyn y Crud wedi ei gwblhau cyn Hydref 2018;

- Byddai gwaith carthu ceg yr harbwr yn cael ei gynnal yn mis Ebrill. Dyma fyddai'r ymgyrch diwethaf cyn symud deunydd o'r domen i ardal traeth Carreg y Defaid.
- Byddai bwiau parth cyflymdra uchel ardal traeth Marian y De ac ardal traeth Abererch yn cael eu lleoli ar eu safle priodol cyn Gŵyl y Sulgwyn.
- Tynnu sylw bod rhestr gwaith cynnal a chadw yr Hafan a'r Harbwr wedi ei gynnwys yn y rhaglen. Gofynwyd i'r aelodau nodi unrhyw waith pellach y dylid ei ystyried.
- Bod craen symudol yr Hafan wedi dirywio tu hwnt i werth buddsoddi arian sylweddol i'w gynnal a chadw. Gan fod gwasanaeth craen symudol ar gael gan gwmnïau yn lleol ym Mhwllheli bwriedir gwerthu'r craen gan brynu gwasanaeth craen fel bod angen gan gwmnïau lleol yn y dyfodol. Byddai hyn yn fwy cost effeithiol.
- Bod staff yr harbwr wedi cydweithio efo'r Clwb Hwylio i glirio a thacluso safle'r hen Glwb Hwylio.
- Bod gwaith wedi ei gwblhau ar ddiwrnod y cyfarfod i lenwi'r tyllau yn arwyneb maes parcio Traeth Glandon. Cynhelir trafodaethau efo Plas Heli yng nghyswllt cynllun i darmacio rhan o'r maes parcio.
- Bod newidiadau wedi eu cyflwyno yn nhelerau rhai staff yr Hafan sydd wedi penderfynu trosglwyddo allan o warchodaeth TUPE i gytundeb cyflogaeth y Cyngor. Mae 3 aelod staff yr Hafan yn parhau dan warchodaeth telerau gwaith TUPE. Yn dilyn y newidiadau yn y cytundebau mae'r gwasanaeth wedi adolygu oriau agor swyddfa'r Hafan er sicrhau na fyddai'r newidiadau yn amharu ar barhad gwasanaeth cwsmeriaid harbwr Pwllheli. Tynnu sylw na fyddai'r swyddfa ar agor rhwng 07.00 a 08.00 nac ychwaith rhwng 18.00 a 19.00.
- Rhannwyd copi o grynodeb cyllideb 2018-19 yr Harbwr a'r Hafan hyd at ddiwedd Chwefror 2018 yn y cyfarfod. Manylwyd ar eu cynnwys gan nodi fod y sefyllfa yn heriol o ran targedau incwm a nodi diolch am ymrwymiad y staff.
- Er bod graddfa chwyddiant ar gyfer yr harbwr a'r Hafan yn 2018/19 wedi cynyddu ers cyflwyno taenlen ffioedd 2018/19 i'r cyfarfod blaenorol, argymhellir i'r Aelod Cabinet bod y ffioedd a thaliadau yn parhau i gynyddu 2% ar gyfartaledd yn y flwyddyn ariannol 2018/19 oherwydd bod y gwasanaeth eisoes wedi cyfathrebu gyda chwsmeriaid yr Harbwr a'r Hafan.

Mewn ymateb i sylw parthed trafferthion mynediad i'r harbwr gyda chwch, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod yn rhannu'r pryderon. Ychwanegodd bod ffurflen ar gael yn swyddfa'r Hafan i ddefnyddwyr gofnodi digwyddiadau o gychod yn taro'r gwaelod a'i fod yn annog pawb i gyflwyno ffurflen pe byddent yn taro'r gwaelod.

Nododd Cynrychiolydd Clwb Hwylio Pwllheli a Phlas Heli ei fod yn amserol i hysbysu defnyddwyr bod gwaith lefelu gwely'r sianel yn symud yn ei flaen, o ystyried byddai unigolion yn penderfynu yn mis Ebrill os ydynt am barhau i gadw angorfa.

Mewn ymateb i gwestiwn, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y bod angen carthu 25,000m$^3$ o ddeunydd o geg yr harbwr er cydnabyddir hefyd bod mwy o ddeunydd yn dod i mewn ar bob llanw. Roedd yn rhagweld byddai oddeutu 15,000 m$^3$ yn cael ei garthu yn yr ymgais nesaf. Rhybuddiwyd na fyddai'n bosibl carthu defnydd pellach gan nad oedd gofod digonol ar gael i'w storio. Nododd nad oedd yn bosib i 2 gwch basio ar hyn o bryd a byddai'r gwaith yn golygu gwelliant o'r amgylchiadau presennol. Mewn ymateb, nododd Cynrychiolydd Cymdeithas Cychod Harbwr Pwllheli y dylid ystyried tynnu dwbl o'r hyn a fwriedir ei garthu a'i fod o'r farn na fyddai tynnu'r cyfanswm o ddeunydd a fwriedir yn gwneud gwahaniaeth.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y prif bwyntiau canlynol gan aelodau:

- Bod angen rhoi neges bositif allan i bobl o ran y gwaith a wneir fel rhan o'r Strategaeth Garthu.
- Ni fyddai gwaith lefelu gwely'r sianel y bwriedir ei wneud yn ddigon effeithiol.

- Bod y llanw yn symud cryn ddeunydd dros y morglawdd i'r sianel, roedd rhaid atal y deunydd rhag symud i fyny'r sianel. Bu llynedd yn flwyddyn ddrwg o ran mynediad ac amcangyfrifir os byddai'r sefyllfa yn gwaethygu byddai perchnogion tua 50 cwch yn ystyried gadael yr Hafan.
- Bod angen hysbysu defnyddwyr o fanylder y gwaith a wneir ar unwaith a heb oedi gan rannu'r amserlen o ran y gwaith ynghlwm â'r Strategaeth Garthu a gwneud hyn mewn iaith syml.
- Cydnabod ei fod yn anodd gwneud gwaith i garthu mwy na'r hyn a fwriedir o geg yr harbwr yn mis Ebrill oherwydd y llanw ond a fyddai'n opsiwn parhau efo'r gwaith carthu yn mis Mai.
- Bod angen hysbysu ar y wefan o ran y gwaith carthu a wneir er mwyn cadarnhau'r gwir sefyllfa. Os byddai defnyddwyr yn gadael mi fyddai'n cymryd blynyddoedd i'w cael yn nôl.
- Ei fod yn anodd pasio o fewn y fynedfa a bod angen gwneud rhywbeth ar fyrder.
- Fyddai'n bosib gwneud y gwaith carthu yn mis Ebrill mewn dwy shifft er mwyn gallu cynyddu cyfanswm y deunydd a garthir?
- Fyddai'n bosib pwmpio'r tywod dros y morglawdd?
- Croesawu bod rhywbeth yn digwydd.
- A fyddai '*jetting*' yn opsiwn?
- Bod angen cwestiynu'r sail y nodir bod rhaid i lefel gronynnau yn y deunydd a garthir fod llai na 15% os am ei ddychwelyd i'r môr.
- Byddai'r gwaith o lefelu gwely'r sianel yn cael ei fonitro?

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd y swyddogion:

- Bod rhaid gweithio o fewn y ffenestr llanw a ni fyddai digon o amser i dynnu mwy o ddeunydd.
- Asesir yn fanwl y gwaith carthu angenrheidiol pellach i'w wneud yn ystod misoedd y Gaeaf 2018/19.
- Bod yr Hafan yn allweddol i'r economi leol a bod sicrhau bod ceg a sianel yr harbwr yn iawn yn hynod o bwysig.
- Yn llwyr gytuno o ran mynediad ac yn ymwybodol o'r trafferthion. Roedd gwyntoedd cryfion diweddar wedi cael effaith. Gellir gwahodd yr aelodau i weld y sefyllfa unwaith gorffennir gwaith lefelu'r sianel.
- Cadarnhad bod cyllid mewn lle ar gyfer carthu ceg yr harbwr yn mis Ebrill, lefelu gwely'r sianel yn mis Mai, carthu'r basn yn ystod Gaeaf 2018/19 a gwaith atgyweirio Grwyn y Crud. Edrychir yn ogystal o ran y posibiliadau gweithredu o fewn y pwerau yn Ddeddf yr Harbwr i bwmpio deunydd i Abererch heb yr angen am drwydded forol.
- Nid oedd y sefyllfa yn ddelfrydol ond roedd camau positif yn cael eu cymryd ar gyfer y dyfodol.
- Bod tendrau ar gyfer y gwaith carthu yn mis Ebrill/Mai wedi mynd allan ond fe ellir edrych os oes sgôp i ehangu'r gwaith.
- Pe byddai bwriad i wneud gwaith tu allan i'r oriau a ganiateir byddai'n rhaid ymgynghori gyda thrigolion gerllaw. Roedd angen hefyd ystyried diffyg capasiti yn y bwnd i dderbyn mwy o ddeunydd.
- Gellir gwirio efo Cyfoeth Naturiol Cymru os fyddai'n dderbyniol i bwmpio'r tywod dros y morglawdd.
- Ni fyddai '*jetting*' yn gynaliadwy yn y tymor byr na'r tymor hir. Fe wnaed gwaith 'agitate and jetting' o gwmpas y pontŵn tanwydd ond ni wnaeth y deunydd symud allan digon ac roedd rhaid ystyried materion amgylcheddol o ran symud deunydd i'r môr.
- Cytuno i wirio o ran lefel gronynnau yn y deunydd a garthir a ganiateir ei ddychwelyd i'r môr.
- Cadarnhau byddai Rheolwr Harbwr Pwllheli yn monitro'r gwaith ar wely'r sianel. Yn ogystal, byddai arolwg hydrograffig pellach yn cael ei gynnal ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau.

O ran oriau agor swyddfa'r Hafan, awgrymodd Cynrychiolydd Cymdeithas Cychod Harbwr Pwllheli y dylid ystyried cychwyn a gorffen cyfnod gwaith y swyddog diogelwch nos awr yn gynt er mwyn llenwi'r bwlch yn oriau agor swyddfa'r Hafan. Mewn ymateb, nododd Rheolwr Harbwr Pwllheli y rhoddir ystyriaeth i hyn.

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn dilyn y difrod yn Harbwr Caergybi o ganlyniad i'r tywydd garw, ei fod wedi gohebu efo Cyngor Ynys Môn a Harbwr Caergybi i nodi bod capasiti yn yr Hafan. Gofynnodd am farn y Pwyllgor Ymgynghorol o ran cynnig angorfa yn yr Hafan i ddefnyddwyr Harbwr Caergybi am yr un ffi a Harbwr Caergybi am un flwyddyn yn unig. Ychwanegodd y bwriedir gwneud y cynnig o ran ewyllys da ond roedd yn dymuno derbyn cydsyniad yr aelodau.

Nododd aelodau eu cefnogaeth i'r bwriad am flwyddyn yn unig a thybir y byddai rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn gefnogol i'r bwriad o ran helpu cyd-forwyr.

Awgrymodd Cynrychiolydd Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a'r Cylch y dylid anfon
llythyr ar ran y Pwyllgor Ymgynghorol at Harbwr Caergybi i gydymdeimlo o ran eu sefyllfa yn dilyn y tywydd garw

Nododd Cynrychiolydd Clwb Hwylio Pwllheli a Phlas Heli bod cyfleusterau'r Hafan i'w canmol a bod lleoliad cysgodol yr harbwr wedi arbed difrod o ganlyniad i'r tywydd garw. Pwysleisiodd bod achos o'r fath yn dangos pwysigrwydd gwaith arolygu cadwyni.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) nodi a derbyn yr adroddiad;**
**(ii) cefnogi'r bwriad i gynnig angorfa yn yr Hafan i ddefnyddwyr Harbwr Caergybi am yr un ffi a Harbwr Caergybi am un flwyddyn yn unig;**
**(iii) bod y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn anfon llythyr ar ran y Pwyllgor Ymgynghorol at Harbwr Caergybi i gydymdeimlo o ran eu sefyllfa yn dilyn y tywydd garw.**

## 4. ADOLYGIAD HAFAN A HARBWR PWLLHELI

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned yn rhoi diweddariad ar fwriad yr Adran Economi a Chymuned i adolygu model rheoli ar gyfer yr Harbwr a'r Hafan ac i geisio barn y Pwyllgor ar y meini prawf i'w ddefnyddio ar gyfer gwerthuso'r modelau posib.

Nodwyd bod Bwrdd Prosiect wedi ei sefydlu gyda'r aelodaeth yn cynnwys Aelod Cabinet - Datblygu'r Economi; y Cynghorwyr Dylan Bullard, Peter Read, Angela Russell a Hefin Underwood, ynghyd â swyddogion.

Eglurwyd mai'r cam cyntaf oedd sefydlu os oedd achos i newid. Sefydlir yr amcanion cyflawni a geisir o'r Hafan a'r Harbwr gan eu defnyddio fel meini prawf i werthuso'r model presennol yn erbyn modelau amgen.

Hysbyswyd ei bod yn fwriad ymgysylltu gyda budd-ddeiliaid i gael mewnbwn ar yr amcanion yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill. Byddai canlyniadau'r trafodaethau hynny'n cael eu bwydo i mewn i'r meini prawf terfynol ac yn sail i fynd ati i werthuso'r modelau.

Nodwyd fel man cychwyn i gynnau trafodaeth roedd y Bwrdd Prosiect yn cynnig y meini prawf canlynol (nad oeddent mewn unrhyw drefn blaenoriaeth):

a) Yn atgyfnerthu'r economi drwy fod yn fasnachol hyfyw a thrwy hynny cefnogi cwmnïau morwrol a swyddi lleol
b) Yn sbardun economaidd drwy ddenu ac uchafu defnydd o'r harbwr

c) Y gallu i hyrwyddo'r iaith Gymraeg
ch) Cynnig budd ariannol i'r Cyngor
d) Y gallu i ddenu buddsoddiad
dd) Yn fodel busnes a chynaliadwy
e) Yn fodel posib i'w weithredu

Nododd Cynrychiolydd Cymdeithas Cychod Harbwr Pwllheli y byddai rhan fwyaf o aelodau'r Gymdeithas i ffwrdd yn y cyfnod y bwriedir ymgysylltu â budd-ddeiliaid. Ychwanegodd Cynrychiolydd Cymdeithas Masnachwyr Morwrol bod y cyfnod yn gyfnod prysur i'r busnesau. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned y byddai'n trafod y mater efo'r cynrychiolwyr ar ôl y cyfarfod.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gynnig sylwadau ar y meini prawf drafft, nodwyd y prif bwyntiau canlynol:

- Angen cyfeirio at gwsmeriaid yn y meini prawf a'r angen i gadw cwsmeriaid presennol a denu rhai newydd.
- Angen rhoi sylw i'r cyfleusterau yn yr Harbwr gyda nifer wedi eu colli yn y blynyddoedd diwethaf.
- Dylid cryfhau maen prawf b) o ran defnydd gan bobl leol.
- Dylid cynnwys yr angen i ail-fuddsoddi yn y meini prawf.

Mewn ymateb i sylwadau pellach gan aelodau, nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned y cwblheir gwaith manylach yng Ngham 2 pryd datblygir achos busnes amlinellol.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) nodi a derbyn yr adroddiad;**
**(ii) cyflwyno'r sylwadau uchod i'r Bwrdd Prosiect.**

**5. CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 16 Hydref, 2018.

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00pm a daeth i ben am 8.00pm

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli** |
| **DYDDIAD** | **16 Hydref 2018** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Rheolwr Harbwr Pwllheli** |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Pwllheli.

1.1 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad bras i'r Pwyllgor ar faterion yr Harbwr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mawrth 2018 a mis Hydref 2018, er mwyn derbyn adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

## 2 Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd

2.1 Mae'r Cod Diogelwch yn 'ddogfen fyw' a chaiff ei hadolygu'n rheolaidd gan staff harbwr y Gwasanaeth. Mae'n angenrheidiol i'r Gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, er mwyn iddo gael ei adolygu i fod yn berthnasol i weithgaredd yr harbwr, cymhorthion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Pwllheli.

2.2 Er bod Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Gwasanaeth, mae'n angenrheidiol atgoffa Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol o'u dyletswydd i gyflwyno sylwadau ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch a derbyn sylwadau ar drefniadau gwaith yr harbyrau er mwyn adolygu'r Cod i sicrhau ei fod yn berthnasol i weithgarwch yr harbwr a'i fod yn briodol yn lleol.

2.3 Bydd arolygwyr Asiantaeth Gwylwyr y Glannau yn ail-ymweld â'r Cyngor yng ngwanwyn 2019. Cynigir adolygiad dilynol ar ddyddiad pan gynhelir cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog lle bydd pob aelod o Bwyllgorau Ymgynghorol Harbwr Gwynedd yn cael eu gwahodd i dderbyn cyflwyniad gan yr arolygwyr ar faterion sy'n ymwneud â'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd. Bydd hyn hefyd yn gyfle i Aelodau'r Pwyllgorau Ymgynghorol ofyn i'r arbenigwyr am faterion sy'n ymwneud â Chod Diogelwch Morol Porthladdoedd ac i'r Arolygwyr gadarnhau'r cyfrifoldebau am gynnwys a gweithrediad y Cod Diogelwch.

## 3 Materion Gweithredol

<u>Strategaeth Garthu</u>

3.1 Mae'r Gwasanaeth wedi comisiynu YGC i weithredu cyfres o waith yn ystod cyfnod 2018/9 fel rhan o'r Strategaeth Garthu gymeradwy.

3.2 Mae'r gwaith arfaethedig yn cynnwys:

a) Adnewyddu Grwyn Preseb (Crib Groyne)
b) Gwagio'r morlyn llonydd
c) Carthu basn y marina a'r sianel fordwyo

d) Carthu mynedfa'r harbwr a gwaredu'r pentwr stoc

3.3 Mae manylion y rhaglen arfaethedig wedi'u cynnwys fel eitem ar wahân ar raglen cyfarfod y Pwyllgor.

Mordwyo

3.4 Cynhaliwyd archwiliad manwl ar gymhorthion mordwyo Pwllheli gan arolygwyr Awdurdod Goleudy Trinity House ar 13 ac 14 Awst 2018. Gwelwyd bod pob un o'r cymhorthion ym Mhwllheli yn iawn ac yn gweithio'n iawn.

3.5 Nid oes unrhyw Rybudd i Forwyr yn weithredol yn Harbwr Pwllheli ar hyn o bryd er ei bod hi'n hanfodol tynnu sylw at ddiffyg lled y sianel yn ardal fynedfa'r harbwr. Mae Dau Gymhorthydd Mordwyo yn sychu ar drai yn yr ardal hon. Rhagwelir y bydd y sefyllfa'n gwella ar ôl i'r gwaith carthu gael ei gwblhau yn 2018/19. Cyflwynir adroddiad PANAR gan y Gwasanaeth i sylw Trinity House bob chwarter. Mae'n adrodd ar safle pob Cymhorthydd Mordwyo dan reolaeth a chyfrifoldeb y Cyngor. Mae Cymhorthydd Mordwyo 'Hafan y Môr' yn parhau i fod yn y lle anghywir. Fel yr Awdurdod Goleudy Lleol, mae'r Cyngor wedi pwysleisio wrth y perchennog y dylid lleoli'r cymhorthydd yn y safle cywir.

Cynnal a Chadw

3.6 Bydd rhestr o'r gwaith fydd yn cael ei gwblhau yn yr Hafan ac yn yr harbwr yn cael ei dosbarthu yn ystod y cyfarfod. Gofynnir am adborth gan aelodau'r Pwyllgor ynghylch unrhyw waith arall fydd angen ei ystyried a'i gynnwys yn y rhaglen waith.

3.7 Yn ystod y cyfnod hwn, roedd yn rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr hyn a ganlyn: -

- Cynnal a Chadw Goleuadau Mordwyo
- Lefelu/carthu Gwely'r Sianel
- Trosglwyddo'r system TCC o adeilad yr Harbwr i adeilad yr Hafan
- Deciau pontŵn newydd
- Amnewid goleuadau pont mynedfa'r pontŵn
- Cynnal a chadw'r peiriant codi cychod
- Prynu 'power washer' newydd ar gyfer doc y peiriant codi cychod
- Cynnal a chadw angorfeydd yr harbwr allanol
- Cynnal a chadw'r ddau gwch gwaith
- Cynnal a chadw cwch patrolio GP 2
- Cynnal a chadw tiroedd.

3.8 Anfonwyd archeb i 'HTEC' i gyflenwi cyfleuster hunan-wasanaeth ar gyfer pwmp tanwydd petrol i Gei Petrol yr Hafan. Gobeithiwn y bydd y pwmp petrol newydd yn weithredol yn y Flwyddyn Newydd. Bydd y pwmp tanwydd Disel yn parhau fel gwasanaeth gan weinydd yn unig am y tro.

3.9 Oherwydd oedran un o'r pympiau petrol ar y cei, penderfynwyd amnewid y pwmp hynaf - bydd hyn yn sicrhau bod cyn lleied â phosib o gerbydau'n torri lawr a llai o broblemau gyda danfon tanwydd i gwsmeriaid.

## 4 Materion Staffio

4.1 Nid oes unrhyw swyddi gwag ym Mhwllheli ar hyn o bryd. Cyfanswm y staff yw 11 gan gynnwys un swyddog diogelwch dros nos o "Draig Security".

4.2 Bydd swydd dymhorol gweinydd tanwydd y cei yn dod i ben ar ddiwedd mis Hydref ac adolygir yr angen am y swydd cyn i dymor 2019 ddechrau.

## 5 Materion Ariannol

5.1 Darparwyd adroddiad ariannol hyd at ddiwedd mis Medi 2018 yn Atodiad 1.

5.2 Mae'r adroddiad yn cynnig crynodeb o ffigurau gwariant ag incwm hyd ar 31 Awst 2018, ac amcangyfrif hyd ar 31 Mawrth 2019. Mae'r amcangyfrif incwm diwedd y flwyddyn o £1,268,714 o'i gymharu a chyllideb (targed) o £1,351,780 gan arwain at orwariant net o £77,013. Wrth gwrs, o gofio fod y gyllideb yn seiliedig ar warged incwm o £542,720, byddai incwm net yr HAfan ar gyfer 2018/9 tua £465,707.

## 6 Ffïoedd a Thaliadau 2018/19

6.1 O ran ffïoedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Hafan Pwllheli a'r Harbwr Allanol yn 2019/20, bwriad y Gwasanaeth yw addasu'r ffïoedd yn unol â chyfradd chwyddiant. Ar hyn o bryd, nid yw'r Gwasanaeth wedi derbyn cadarnhad o'r cyfraddau y dylai eu rhoi ar waith.

## 7 Ystadegau Blynyddol yr Harbwr/Hafan

7.1 Mae manylion ystadegau'r Hafan a'r Harbwr ar gyfer 2018 wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

7.2 Mae nifer deiliaid yr angorfeydd blynyddol sy'n talu am angori yn 2018 wedi gostwng ychydig, o 305 i 292. Rhagwelwn y bydd nifer y cychod sydd wedi'u dosbarthu fel cychod ymweld yr un fath â 2017 a gallai gynyddu ychydig wrth i ni gasglu'r ystadegau ar gyfer y flwyddyn gyfan ar ddiwedd mis Mawrth 2019.

7.3 Mae angorfeydd yr harbwr wedi gostwng o 60 yn 2017 i 55 yn 2018.

7.4 Daeth gwiriad ar hap ar nifer y cychod ym marina'r Hafan ar 12 Medi i'r casgliad mai 357 oedd nifer y cychod (cymysgedd o gychod preswyl ac ymweld); mae hyn gyfystyr ag 85% o'r capasiti ar y pryd.

7.5 Mae gwerthiant tanwydd yn gyson gyda 2017, gyda dim ond ychydig o ostyngiad mewn gwerthiant disel ond ychydig o gynnydd mewn gwerthiant petrol.

## 8 Digwyddiadau

8.1 Eto eleni, cafod nifer o ddigwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol eu denu i Bwllheli. Cafodd y digwyddiadau eu senu a'u cynnal gan Plas Heli Cyf.

**9. Argymhelliad**

9.1 I nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad

# Adroddiad Harbwr Pwllheli

## Cyfrif Incwm a Gwariant 2018-19

| | Cyllideb | Gwariant/Incwm hyd at 31.08.2018 | Taflynnu costau hyd at 31.03.2019 | Gor/(tan)wariant |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | |
| Gweithwyr | £33,330 | £9,207 | £12,936 | -£11,187 |
| Adeiladau | £13,510 | £3,885 | £7,624 | -£2,001 |
| Cludiant | £590 | £0 | £0 | -£590 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | £7,270 | £45 | £5,000 | -£2,225 |
| Arall | £0 | £1,180 | £0 | £1,180 |
| **Cyfanswm Gwariant** | £54,700 | £14,318 | £25,560 | -£14,822 |
| **Incwm** | -£53,010 | -£22,091 | -£14,373 | £16,546 |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | £1,690 | -£7,773 | £11,187 | £1,723 |

## Adroddiad Ariannol Hafan

## Cyfrif Incwm a Gwariant 2018-19

| Gwariant | Cyllideb | Gwariant/Incwm hyd at 31.08.2018 | Taflynnu costau hyd at 31.03.2019 | Gor/(tan)wariant |
|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | £282,140 | £113,566 | £152,357 | -£16,218 |
| Adeiladau | £423,600 | £125,462 | £298,138 | £0 |
| Cludiant | £8,900 | £3,311 | £5,589 | £0 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | £94,420 | £36,259 | £68,161 | £10,000 |
| Arall | £0 | £165 | £0 | £165 |
| **Cyfanswm Gwariant** | £809,060 | £278,762 | £524,245 | -£6,053 |
| **Incwm** | -£1,351,780 | -£995,776 | -£272,938 | £83,066 |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | -£542,720 | -£717,014 | £251,307 | £77,013 |

# ***Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit***

## ***Cyfanswm wedi Cofrestru Badau Dwr Personol - Total number of Personal Watercraft Registrations***

| Blwyddyn Year | Harbwr Aberdyfi Harbour | Harbwr Abermaw Harbour | Harbwr Porthmadog Harbour | Harbwr Pwllheli/ Hafan | Morfa Bychan | Traethau Gwynedd Beaches | Swyddfa Office | Cyfanswm Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2013 | 16 Aberdyfi<br>10 Tywyn | 55 Abermaw<br>6 Caerddaniel | 36 | 2 Harbwr<br>23 Hafan | 129 | 85 Abersoch<br>4 Machroes<br>6 Morfa Nefyn<br>8 Nefyn<br>2 Trefor<br>4 Aberdaron | 308 | 694 |
| 2014 | 22 Aberdyfi<br>1 Tywyn | 65 Abermaw<br>5 Caerddaniel | 20 | 36 Total Boat Care<br>1 Harbwr<br>47 Hafan | 143 | 88 Abersoch<br>5 Machroes<br>3 Morfa Nefyn<br>6 Nefyn<br>1 Aberdaron | 250 | 693 |
| 2015 | 23 Aberdyfi<br>1 Tywyn | 64 Abermaw a Caerddaniel | 30 | 42 Total Boat Care<br>43 Hafan | 157 | 76 Abersoch<br>1 Machroes<br>9 Morfa Nefyn<br>6 Nefyn<br>1 Aberdaron | 243 | 696 |
| 2016 | 27 Aberdyfi<br>4 Tywyn | 69 Abermaw | 35 | 49 Total Boat Care<br>56 Hafan | 183 | 101 Abersoch<br>20 Machroes<br>4 Morfa Nefyn<br>10 Nefyn<br>2 Aberdaron | 174 | 734 |
| 2017 | 28 Aberdyfi<br>6 Tywyn | 68 Abermaw | 45 | 55 Total Boat Care<br>65 Hafan | 165 | 122 Abersoch<br>10 Machroes<br>12 Morfa Nefyn<br>10 Nefyn<br>1 Aberdaron | 151 | 738 |
| 2018 | 50 Aberdyfi<br>3 Tywyn | 74 Abermaw | 52 | 72 Total Boat Care<br>105 Hafan | 200 | 191 Abersoch<br>8 Machroes<br>3 Morfa Nefyn<br>5 Nefyn<br>1 Aberdaron | 160 | 924 |

## Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit
## Cyfanswm wedi Cofrestru Cychod Pŵer - Total number of Powerboat Registrations


| Blwyddyn<br>Year | Harbwr<br>Aberdyfi<br>Harbour | Harbwr<br>Abermaw<br>Harbour | Harbwr<br>Porthmadog<br>Harbour | Harbwr<br>Pwllheli<br>Harbour | Morfa<br>Bychan | Traethau<br>Gwynedd<br>Beaches | Swyddfa<br>Office | Cyfanswm<br>Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2013 | 27 Aberdyfi<br>9 Tywyn | 54 Abermaw<br>11 Caerddaniel | 22 | 16 Harbwr<br>60 Hafan | 22 | 92 Abersoch<br>14 Machroes<br>22 Trefor<br>17 Nefyn<br>24 Morfa Nefyn<br>38 Aberdaron | 553 | 981 |
| 2014 | 54 Aberdyfi<br>8 Tywyn | 64 Abermaw<br>11 Caerddaniel | 24 | 118 Total<br>Boat Care<br>8 Harbwr<br>85 Hafan | 19 | 115 Abersoch<br>3 Machroes<br>30 Morfa Nefyn<br>14 Nefyn<br>21 Trefor<br>19 Aberdaron | 408 | 1001 |
| 2015 | 52 Aberdyfi<br>3 Tywyn | 71 Abermaw a<br>Caerddaniel | 30 | 99 Total<br>Boat Care<br>5 Harbwr<br>104 Hafan | 14 | 92 Abersoch<br>4 Machroes<br>23 Morfa Nefyn<br>13 Nefyn<br>16 Trefor<br>12 Aberdarom | 449 | 987 |
| 2016 | 58 Aberdyfi<br>7 Tywyn | 81 Abermaw | 37 | 115 Total<br>Boat Care<br>4 Harbwr<br>119 Hafan | 31 | 101 Abersoch<br>71 Machroes<br>27 Morfa Nefyn<br>14 Nefyn<br>10 Aberdaron | 336 | 1011 |
| 2017 | 53 Aberdyfi<br>9 Tywyn | 66 Abermaw | 37 | 103 Total<br>Boat Care<br>3 Harbwr<br>117 Hafan | 29 | 125 Abersoch<br>40 Machroes<br>48 Morfa Nefyn<br>19 Nefyn<br>11 Aberdaron<br>6 Trefor | 289 | 955 |
| 2018 | 53 Aberdyfi<br>14 Tywyn | 75 Abermaw | 38 | 112 Total<br>Boat Care<br>182 Hafan | 34 | 161 Abersoch<br>34 Machroes<br>53 Morfa Nefyn<br>16 Nefyn<br>5 Aberdaron | 289 | 1066 |

# HARBWR PWLLHELI HARBOUR


## Cymhariaeth o Ystadegau Cychod
Comparison of Boat Statistics

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer o Gychod /** Number of Boats | 84 | 91 | 87 | 58 | 60 | 55 |
| **Cyfanswm Hydoedd /** Total LOA | 608.59 | 685.88 | 619 | 463 | 457 | 416 |
| **Cyfartaledd Hyd /** Average Length | 7.25 | 7.54 | 7.11 | 7.98 | 7.62 | 7.56 |
| **Cyfanswm Dyfnder /** Total Draught | 71.53 | 96.65 | 62.72 | 55.54 | 53.58 | 49.11 |
| **Cyfartaledd Dyfnder** / Average Draught | 0.85 | 1.06 | 0.72 | 0.96 | 0.97 | 0.89 |


**Nifer o Gychod / Number of Boats**





**Cyfanswm Hydoedd / Total Length**





**Cyfartaledd Hyd / Average Length**




**Cyfanswm Dyfnder / Total Draught**




**Cyfartaledd Dyfnder / Average Draught**



# *Uned Morwrol a Pharciau Gwledig*

## Ystadegau Cychod Pŵer v's Cychod Hwylio a Rhestr Aros - Powerboats v's Sailing Boats and Waiting List

| *Harbwr/Harbour Marina* | *Cyfanswm Nifer Angorfeydd Total number available moorings* | *Cyfanswm Cychod ar Angorfeydd Total number of boats on mooring* | *Nifer Cychod P ŵer Total number Powerboats* | *Nifer Cychod Hwylio Total number sailing boats* | *Canran (%) Pŵer V's hwylio Percentage Power v's Sail* |
|---|---|---|---|---|---|
| Harbwr Aberdyfi 13 | 120 | 80 | 54 | 26 | 67.5% Pwer<br>32.5% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 14 | 120 | 75 | 53 | 22 | 70.7% Pwer<br>29.3% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 15 | 120 | 77 | 53 | 24 | 68.8% Pwer<br>31.2% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 16 | 120 | 79 | 55 | 24 | 69.6% Pwer<br>30.4% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 17 | 120 | 78 | 56 | 22 | 71.8% Pwer<br>28.2% Hwylio |
| **Harbwr Aberdyfi 18** | **120** | **74** | **55** | **19** | **74.3 % Pwer**<br>**25.7% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Abermaw 13 | 140 | 92 | 62 | 30 | 67.4% Pwer<br>32.6% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 14 | 140 | 82 | 54 | 28 | 65.9% Pwer<br>34.1% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 15 | 140 | 93 | 60 | 33 | 64.5% Pwer<br>35.5% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 16 | 140 | 88 | 59 | 29 | 67.0% Pwer<br>33.0% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 17 | 140 | 86 | 55 | 31 | 64.0% Pwer<br>36.0% Hwylio |
| **Harbwr Abermaw 18** | **140** | **69** | **45** | **24** | **65.2% Pwer**<br>**34.8% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Porthmadog 13 | 238 | 162 | 59 | 103 | 36.4% Pwer<br>63.6% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 14 | 238 | 157 | 54 | 103 | 34.4% Pwer<br>65.6% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 15 | 238 | 140 | 45 | 95 | 32.1% Pwer<br>67.9% Hwylio |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Harbwr Porthmadog 16 | 238 | 129 | 41 | 88 | 31.8% Pwer<br>68.2% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 17 | 238 | 135 | 42 | 93 | 31.1% Pwer<br>68.9% Hwylio |
| **Harbwr Porthmadog 18** | **238** | **131** | **40** | **91** | **30.5% Pwer<br>69.5% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Pwllheli 13 | 114 | 87 | 39 | 48 | 44.8% Pwer<br>55.2% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 14 | 114 | 91 | 36 | 55 | 39.6% Pwer<br>60.4% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 15 | 114 | 87 | 46 | 41 | 52.9% Pwer<br>47.1% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 16 | 114 | 58 | 18 | 40 | 31.0% Pwer<br>69.0% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 17 | 114 | 60 | 19 | 41 | 31.7% Pwer<br>68.3% Hwylio |
| **Harbwr Pwllheli 18** | **114** | **55** | **29** | **26** | **52.7% Pwer<br>47.3% Hwylio** |
| | | | | | |
| Hafan Pwllheli 13 | 410 | 302 | 153 | 149 | 50.7% Pwer<br>49.3% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 14 | 409 | 293 | 139 | 154 | 47.4% Pwer<br>52.6% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 15 | 409 | 292 | 138 | 154 | 47.3% Pwer<br>52.7% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 16 | 409 | 287 | 137 | 150 | 47.7% Pwer<br>52.3% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 17 | 409 | 306 | 144 | 162 | 47.1% Pwer<br>52.9% Hwylio |
| **Hafan Pwllheli 18** | **409** | **292** | **150** | **142** | **51.4% Pwer<br>48.6% Hwylio** |
| | | | | | |
| Doc Fictoria 13 | 100 | 100 | 37 | 63 | 37.0% Pwer<br>63.0% Hwylio |
| Doc Fictoria 14 | 100 | 100 | 36 | 64 | 36.0% Pwer<br>64.0% Hwylio |
| Doc Fictoria 15 | 100 | 98 | 34 | 64 | 34.7% Pwer<br>65.3% Hwylio |
| Doc Fictoria 16 | 100 | 92 | 34 | 58 | 37.0% Pwer<br>63.0% Hwylio |
| | | | | | |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Doc Fictoria 17 | 100 | 92 | 28 | 64 | 30.4% Pwer<br>69.6% Hwylio |
| **Doc Fictoria 18** | **100** | **90** | **49** | **41** | **54.4% Pwer**<br>**45.6% Hwylio** |
| | | | | | |
| Cyfanswm 13 | 1122 | 823 | 416 | 407 | 50.5% Pwer<br>49.5% Hwylio |
| Cyfanswm 14 | 1121 | 798 | 372 | 426 | 46.6% Pwer<br>53.4% Hwylio |
| Cyfanswm 15 | 1121 | 787 | 376 | 411 | 47.8% Pwer<br>52.2% Hwylio |
| Cyfanswm 16 | 1121 | 733 | 344 | 389 | 46.9% Pwer<br>53.1% Hwylio |
| Cyfanswm 17 | 1121 | 757 | 344 | 413 | 45.4% Pwer<br>54.6% Hwylio |
| **Cyfanswm 18** | **1121** | **709** | **367** | **342** | **51.8% Pwer**<br>**48.2% Hwylio** |


# CYMHARIAETH O YSTADEGAU CYCHOD YM MHOB HARBWR 2018
# COMPARISON OF BOAT STATISTICS AT EACH HARBOUR 2018


| Harbwr<br>Harbour | Nifer o Gychod<br>Number of Boats | Cyfanswm Hydoedd<br>Total Overall Length | Cyfartaledd Hyd<br>Average Length | Cyfanswm Dyfnder<br>Total Draught | Cyfartaledd Dyfnder<br>Average Draught |
|---|---|---|---|---|---|
| Abermaw | 69 | 493.36 | 7.15 | 61.21 | 0.89 |
| Aberdyfi | 74 | 480.92 | 6.50 | 50.91 | 0.69 |
| Porthmadog | 131 | 1055.13 | 8.05 | 131.01 | 1.00 |
| Pwllheli | 55 | 416 | 7.56 | 49.11 | 0.89 |
| | | | | | |
| Cyfansymiau holl harbrau<br>Totals of all harbours | 329 | 2445.41 | 29.26 | 292.24 | 3.47 |
| Cyfartaleddau holl harbrau<br>Averages of all harbours | 82.25 | 611.35 | 7.32 | 73.06 | 0.87 |


# Darlun o ystadegau cychod ym mhob harbwr.
# Analysis of boat statistics at each harbour.




## ***Uned Morwrol / Maritime Unit***


***Ystadegau angorfeydd – Mooring statistics***


| ***Harbwr Harbour*** | ***Nifer o Angorfeydd Available no of moorings*** | ***Preswylydd Occupancy*** | ***Preswyl yng Ngwynedd Residing in Gwynedd*** | ***Eraill*** *Others* |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| *Aberdyfi 2013* | *120* | *80 (66.7%)* | *40 (50.0%)* | *40 (50.0%)* |
| *Aberdyfi 2014* | *120* | *75 (62.5%)* | *35 (46.7%)* | *40 (53.3%)* |
| *Aberdyfi 2015* | *120* | *77 (64.2%)* | *35 (45.5%)* | *42 (54.5%)* |
| *Aberdyfi 2016* | *120* | *79 (65.8%)* | *36 (45.6%)* | *43 (54.4%)* |
| *Aberdyfi 2017* | *120* | *78 (65.0%)* | *36 (46.2%)* | *42 (53.8%)* |
| ***Aberdyfi 2018*** | ***120*** | ***74 (61.7%)*** | ***37 (50.0%)*** | ***37 (50.0%)*** |
| | | | | |
| *Abermaw 2013* | *140* | *92 (65.7%)* | *55 (59.8%)* | *37 (40.2%)* |
| *Abermaw 2014* | *140* | *82 (58.6%)* | *54 (65.9%)* | *28 (34.1%)* |
| *Abermaw 2015* | *140* | *93 (66.4%)* | *63 (67.7%)* | *30 (32.3%)* |
| *Abermaw 2016* | *140* | *88 (62.9%)* | *60 (68.2%)* | *28 (31.8%)* |
| *Abermaw 2017* | *140* | *86 (61.4%)* | *59 (68.6%)* | *27 (31.4%)* |
| ***Abermaw 2018*** | ***140*** | ***69 (49.3%)*** | ***44 (63.8%)*** | ***25 (36.2%)*** |
| | | | | |
| *Porthmadog 2013* | *238* | *162 (68.1%)* | *45 (27.8%)* | *117 (72.2%)* |
| *Porthmadog 2014* | *238* | *157 (66.0%)* | *44 (28.0%)* | *113 (72.0%)* |
| *Porthmadog 2015* | *238* | *140 (58.8%)* | *44 (31.4%)* | *96 (68.6%)* |
| *Porthmadog 2016* | *238* | *129 (54.2%)* | *47 (36.4%)* | *82 (63.6%)* |
| *Porthmadog 2017* | *238* | *135 (56.7%)* | *54 (40.0%)* | *81 (60.0%)* |
| ***Porthmadog 2018*** | ***238*** | ***131 (55.0%)*** | ***54 (41.2%)*** | ***77 (58.8%)*** |
| | | | | |
| *Pwllheli 2013* | *114* | *84 (73.7%)* | *59 (70.2%)* | *25 (29.8%)* |
| *Pwllheli 2014* | *114* | *91 (79.8%)* | *47 (51.6%)* | *44 (48.4%)* |
| *Pwllheli 2015* | *114* | *87 (76.3%)* | *57 (65.5%)* | *30 (34.5%)* |
| *Pwllheli 2016* | *114* | *58 (50.9%)* | *27 (46.6%)* | *31 (53.4%)* |
| *Pwllheli 2017* | *81* | *60 (74.1%)* | *28 (46.7%)* | *32 (53.3%)* |
| ***Pwllheli 2018*** | ***81*** | ***55 (67.9%)*** | ***27 (49.1%)*** | ***28 (50.9%)*** |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Hafan 2013* | *410* | *302 (73.7%)* | *68 (22.5%)* | *234 (77.5%)* |
| *Hafan 2014* | *409* | *293 (71.6%)* | *51 (17.4%)* | *242 (82.6%)* |
| *Hafan 2015* | *409* | *292 (71.4%)* | *56 (19.2%)* | *236 (80.8%)* |
| *Hafan 2016* | *409* | *287 (70.1%)* | *55 (19.2%)* | *232 (80.8%)* |
| *Hafan 2017* | *409* | *306 (74.8%)* | *57 (18.6%)* | *249 (81.4%)* |
| ***Hafan 2018*** | ***409*** | ***292 (71.4%)*** | ***56 (19.2%)*** | ***236 (80.8%)*** |
| | | | | |
| *Doc Fictoria 2013* | *100* | *100 (100.0%)* | *27 (27.0%)* | *73 (73.0%)* |
| *Dco Fictoria 2014* | *100* | *100 (100.0%)* | *25 (25.0%)* | *75 (75.0%)* |
| *Doc Fictoria 2015* | *100* | *100 (100.0%)* | *21 (21.0%)* | *79 (79.0%)* |
| *Doc Fictoria 2016* | *100* | *92 (92.0%)* | *19 (20.7%)* | *73 (79.3%)* |
| *Doc Fictoria 2017* | *100* | *92 (92.0%)* | *16 (17.4%)* | *76 (82.6%)* |
| ***Doc Fictoria 2018*** | ***100*** | ***90 (90.0%)*** | ***21 (23.3%)*** | ***69 (76.7%)*** |
| | | | | |


**Ystadegau Blynyddol *Hafan Pwllheli* - i Medi 2018**
**Annual Statistics for *Hafan Pwllheli* - to September 2018**











Hyd at Medi 2018 Up to September 2018





Hyd at Medi 2018 Up to September 2018





Nifer o gychod ar yr rhestr diddordeb mewn angorfa - No. of vessels on the Expressions of Interest
250
200
150
100
50
0
202
183
131
133
76
76
74
74
0
2009
2010
2011
2012
2013
2014
2015
2016
2017

Cychod Hwyl/Pwer ar yr rhestr diddordeb mewn angorfa -
No of Sail/Power vessels on the Expressions of Interest list
1
0.8
0.6
0.4
0.2
0
0
0
pwer/power
hwylio/sail


Nifer o gychod Hwylio/Pwer yn yr Hafan - No. of sailing/power vessels in the Hafan
0
50
100
150
200
250
2009
2010
2011
2012
2013
2014
2015
2016
2017
2018
184
223
180
227
153
205
169
181
149
153
155
137
154
138
150
138
162
144
150
Pwer/Power
Hwyly/Sail


Preswyl yng Ngwynedd/Residing In Gwynedd
0
50
100
150
200
250
300
350
2009
2010
2011
2012
2013
2014
2015
2016
2017
2018
107
300
105
303
78
285
75
264
68
234
50
244
56
236
55
232
57
249
56
236
Gwynedd
Arall/Other




**Dadansoddiad o pam fod perchennog doc yn gadel - 1taf Ebrill i 31ain o Fawrth**


***Analysis of why resident bertholders leave 1st April to 31st March***

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Wedi gwerthu cwch/sold boat** | 15 | 12 | 20 | 7 | 13 | 9 | 9 | 11 | 5 |
| **Ardal newydd/New Cruising Ground** | 10 | 12 | 26 | 8 | 7 | 5 | 8 | 3 | 1 |
| **Parcio a lansio/Park and Launch** | 6 | 2 | 0 | 3 | 4 | 1 | 2 | 0 | 0 |
| **Dim rheswm/No reason given** | 28 | 24 | 17 | 16 | 14 | 2 | 13 | 8 | 1 |
| **Rhu ddrud/Too expensive** | 6 | 2 | 3 | 1 | 1 | 3 | 0 | 0 | |
| **Methdalwr/Bankrupt** | 1 | 0 | 2 | 2 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| **Iechyd/Ill health** | 3 | 8 | 4 | 8 | 2 | 4 | 9 | 3 | 2 |
| **Blwyddyn allan/Year out** | 10 | 5 | 3 | 5 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| **Carthu/Dredging** | 2 | 8 | 4 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm/Total** | **81** | **73** | **79** | **50** | **43** | **28** | **41** | **25** | 9 |


**Hyd at Medi 2018**
**Up to September 2018**


# Ystadegau Blynyddol *Harbwr Pwllheli* - i Medi 2018
# Annual Statistics for *Pwllheli Harbour* - to September 2018


**Nifer o Gychod Blynyddol - Number of annual Resident vessels**





**Cyfanswm medr cychod blynyddol - Total metres Resident boats**




Preswyl yng Ngwynedd - Residing in Gwynedd
Gwynedd
eraill/others
0
10
20
30
40
50
60
70
80
2009
2010
2011
2012
2013
2014
2015
2016
2017
2018
74
78
73
67
73
59
62
59
31
58
56
31
50
30
57
31
27
32
28
28


Nifer o gychod Hwylio/Pwer yn yr Harbwr - Number of Sailing/Power vessels in the Harbour
Hwyl/Sail
Pwer/Power
0
10
20
30
40
50
60
70
2012
2013
2014
2015
2016
2017
2018
57
33
64
50
46
35
41
46
40
18
41
19
29
26




**Dadansoddiad o pam fod perchennog doc yn gadel - 1taf Ebrill i 31ain o Fawrth**
***Analysis of why resident bertholders leave 1st April to 31st March***

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Wedi gwerthu cwch/sold boat** | 3 | 4 | 0 | 2 | 0 | 0 | | |
| **Ardal newydd/New Cruising Ground** | 0 | 0 | 17 | 1 | 0 | 0 | | |
| **Parcio a lansio/Park and Launch** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | |
| **Dim rheswm/No reason given** | 0 | 0 | 12 | 2 | 0 | 0 | | |
| **Rhu ddrud/Too expensive** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | |
| **Methdalwr/Bankrupt** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | |
| **Iechyd/Ill health** | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | | |
| **Blwyddyn allan/Year out** | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | | |
| **Carthu/Dredging** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| **Cyfanswm/Total** | **3** | **4** | **29** | **6** | **1** | 0 | | |

**Hyd at Medi 2018**
**Up to September 2018**

**6434: Adroddiad Cynnydd Gwaith Harbwr, Pwllheli (09/10/2018)**

Ailadeiladu'r Grwyn

- Yn dilyn arolwg topograffeg a gynhaliwyd yn ystod wythnos yn cychwyn 10 fed o Fedi, mae'r dyluniad bellach yn nwylo Alan Williams o Coastal Engineering UK. Disgwylir bydd dyluniad amlinellol o'r grwyn ar gael cyn ddiwedd y mis.
- Mae CEUK wedi bod yn cyd-weithio gyda'n uned geo-dechnegol ynghylch yr agwedd archwiliad o'r ddaear – dim pryderon I'w hadrodd.
- Mae archwiliadau wedi canfod bod gan Ddŵr Cymru gyfarpar o fewn ardal y gwaith, ac wedi gofyn am drafodaeth pellach unwaith bydd dyluniad amlinellol ar gael.
- Ynghylch hawliau - Mae Cyfreithiwr Cyngor Gwyned wedi cadarnhau bod gan Gyngor Gwynedd hawliau dan Ddeddf Harbwr Pwllheli I ail-adeiladu'r grwyn, fodd bynnag, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru angen cytuno gyda'r bwriad cyn bwrw ymlaen gyda ei adeiladu. Mae hwn yn broses llai ffurfiol, hynny yw, ni fydd angen Trwydded Forwrol fel y cyfryw.

Gwagio'r Lagŵn Distyllu:

- Arolwg hydrograffeg a topograffeg wedi ei gwblhau yn ystod wythnos yn cychwyn 10/09/2018. Cyfrifir bod yna oddeutu 4,000m3 o ddeunydd yn y lagŵn.
- Cyfarfod gyda Uned Bioamrywiaeth 03/10/2018 – yr adran yn hapus gyda'r bwriad o drosglwyddo deunydd I'r tir sy' wedi ei adennill yn barod cyn belled bod y pwll yn cael ei gadw ar gyfer bywyd gwyllt, a bod y ffens yn cael ei gadw er mwyn sicrhau fod bywyd gwyllt yn cael llonydd.
- Fodd bynnag, mae Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd wedi nodi 03/10/2018 eu bod angen cais er mwyn diwygio amodau caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith o adeiladu'r bwnd a'r tir sy' wedi ei adennill o'r harbwr.
- Dogfennau contract yn barod I fynd allan I dendr. Aros am ddyluniad tirlunio. Anelu I fynd I dendr wythnos nesaf.

Carthu basn yr harbwr:

- Arolwg hydrograffeg wedi ei gwblhau gan CES yn ystod wythnos yn cychwyn 10fed o Fedi. Trwy gymharu arolwg hydrograffeg presennol gyda'r design levels, mae'n ymddangos bod angen carthu oddeutu 60,000m3 o ddeunydd er mwyn cynyddu'r dyfnder I'r designed levels. Angen trafodaeth gyda'r client i flaenoriaethu ardaloedd I'w carthu, gan gysidro mai 20,000m3 yw capasiti'r lagŵn.
- Sampls wedi eu casglu ddoe (09/10/2018) – bydd yn cael eu dadansoddi o fewn y dyddiau nesaf